

## Cynulliad Cenedlaethol Cymru

### Etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2011 Mawrth 2011

Yn y papur hwn ceir cyflwyniad a throsolwg ynglŷn â'r etholiad i Gynulliad Cenedlaethol Cymru sydd i'w gynnal ar 5 Mai 2011.

Mae yma amlinelliad hefyd o reolau'r etholiad ei hun, gan gynnwys manylion cofrestru etholwyr a manylion ymgyrchu.

Gwasanaeth  
Ymchwil yr  
Aelodau



# Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

**Mae Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau'n darparu cymorth ymchwil cyfrinachol a diduedd i bwyllgorau craffu a phwyllgorau deddfwriaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac i'r 60 o Aelodau'r Cynulliad a'u staff.**

Mae briffiau gan Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau yn cael eu hysgrifennu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Mae'r awduron ar gael i drafod y papurau gydag Aelodau a'u staff ond nid yw'n bosibl rhoi cyngor i'r cyhoedd. Croesawn sylwadau ar ein briffiau; os oes gennych unrhyw sylwadau gallwch eu hanfon i'r cyfeiriad post neu e-bost isod.

Gellir cael gafael ar fersiwn electronig o'r papur ar safle'r Cynulliad Cenedlaethol yn:  
[www.cynulliadcymru.org/bus-assembly-publications-research.htm](http://www.cynulliadcymru.org/bus-assembly-publications-research.htm)

Mae copïau printiedig hefyd ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau:

Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1NA

E-bost: [MembersLibrary@wales.gov.uk](mailto:MembersLibrary@wales.gov.uk)

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2011

Ceir atgynhychu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhychu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

## **Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2011  
Mawrth 2011

Owain Roberts  
Alys Thomas

Rhif dogfen: 11/020

Gwasanaeth  
Ymchwil yr  
Aelodau





# Cynnwys

<b>1. Rhagymadrodd</b> .....	<b>1</b>
1.1. Diddymu .....	1
<b>2. System Etholiadol Cymru</b> .....	<b>2</b>
2.1. Y System Aelodau Ychwanegol .....	2
2.2. Fformwla d'Hondt .....	3
2.3. Ymgeiswyr Deuol .....	6
<b>3. Cynnal a gweinyddu Etholiad i'r Cynulliad</b> .....	<b>8</b>
3.1. Dyddiad ac amser yr etholiad .....	8
3.2. Amrywio dyddiad yr etholiad .....	8
3.3. Cyfuno pleidleisiau.....	9
3.4. Swyddogion Canlyniadau.....	10
3.5. Cofrestru Pleidiau.....	11
3.6. Rhedeg mewn etholiad .....	12
3.7. Enwebu .....	13
3.8. Ymgyrchu .....	13
3.9. Cyllid yr ymgyrch .....	14
3.10. Gwariant y pleidiau ar ymgyrchu a chostau etholiadol ymgeiswyr ar restrau'r pleidiau.....	15
<b>4. Pwy sy'n pleidleisio?</b> .....	<b>16</b>
4.1. Pwy sy'n cael pleidleisio?.....	16
4.1. Hawliau pleidleisio i garcharorion .....	16
4.2. Cofrestru .....	18
4.3. Pleidleisio drwy ddirprwy a thrwy'r post.....	18
4.4. Materion ieithyddol .....	19
4.5. Hyrwyddo Etholiadau'r Cynulliad .....	19
<b>5. Diwrnod y bleidlais</b> .....	<b>20</b>
5.1. Pwy all fynd i'r orsaf bleidleisio?.....	20
5.2. Rhifwyr .....	20
5.3. Arolygon barn wrth i bobl ymadael â gorsafoedd pleidleisio.....	21
5.4. Amser y cyfrif.....	21
5.5. Ailgyfrif.....	22
5.6. Cyhoeddi'r canlyniadau .....	22
<b>Atodiad 1: Dyddiadau Allweddol yr Etholiad</b> .....	<b>24</b>
<b>Atodiad 2: Swyddi sy'n anghymhwyso'r deiliaid rhag bod yn aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru</b> .....	<b>25</b>



# Etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2011

## 1. Rhagymadrodd

Bydd y pedwerydd etholiad i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn cael ei cynnal ar 5 Mai 2011, yr un diwrnod ag etholiadau i Senedd yr Alban, Cynulliad Gogledd Iwerddon, yr awdurdodau lleol yng Ngogledd Iwerddon a rhai o'r awdurdodau lleol yn Lloegr. Bydd yr etholiad hefyd yn cyd-daro â refferendwm i benderfynu a ddylai'r system etholiadol i Senedd y Deyrnas Unedig gael ei newid.<sup>1</sup>

Yn y papur hwn ceir cyflwyniad a throsolwg ynglŷn â'r etholiad. Mae'n cynnwys gwybodaeth am reolau a gweinyddiaeth yr etholiad ei hun, gan gynnwys manylion am gofrestru etholwyr ac ymgyrchu.

Sylwch nad yw'r wybodaeth a ddarperir yma yn gyflawn ac y dylai darpar ymgeiswyr ac eraill sy'n ymwneud â'u cefnogi ymgynghori â chanllawiau'r Comisiwn Etholiadol neu Swyddogion Gweinyddol yr Etholiad yn eu hardal awdurdod lleol os oes arnyn nhw angen cyngor.

### 1.1. Diddymu

Mae adran 3(2)(a) o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*<sup>2</sup> ("Deddf 2006") yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad Cenedlaethol gael ei ddiddymu cyn y gall etholiad cyffredinol o'i aelodau gael ei gynnal. Hwn fydd y tro cyntaf iddi fod yn ofynnol i'r Cynulliad Cenedlaethol wneud hyn oherwydd o dan *Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998* ("Deddf 1998"),<sup>3</sup> cafodd y Cynulliad ei gyfansoddi'n gorff corfforaethol ac roedd Aelodau'r Cynulliad yn parhau'n Aelodau hyd at yr etholiad. Ond mae Deddf 2006 yn cysoni'r Cynulliad â Senedd y Deyrnas Unedig, Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon.

Diddymu yw'r term swyddogol ar gyfer diwedd Senedd neu Gynulliad ac mae'n dynodi diwedd cyfnod Aelod o'r Cynulliad yn y swydd. Yn ystod cyfnod y diddymiad, felly, ni fydd yna Aelodau o'r Cynulliad.

Er hynny, fe fydd Gweinidogion Cymru, gan gynnwys y Prif Weinidog, Dirprwy Weinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol, yn parhau yn eu swyddi yn ystod diddymiad nes i Brif Weinidog newydd gael ei ethol ar ôl yr etholiad.<sup>4</sup> Mae Deddf 2006 hefyd yn datgan y bydd y Llywydd a Chomisiynwyr y Cynulliad yn parhau yn eu swyddi, nes i Gomisiwn newydd a Llywydd newydd gael eu hethol ar ôl yr etholiad.<sup>5</sup>

---

<sup>1</sup> Mae rhagor o wybodaeth am y refferendwm ar gael ym [Mhapur Ymchwil Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau: Refferendwm ar y system bleidleisio ar gyfer etholiadau Seneddol y DU 2011](#).

<sup>2</sup> [Deddf Llywodraeth Cymru 2006 \(p.32\)](#)

<sup>3</sup> [Deddf Llywodraeth Cymru 1998 \(p.38\)](#)

<sup>4</sup> [Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Papur Comisiwn y Cynulliad Paper AC 2010\(6\) P.2: Diddymu'r Cynulliad cyn Etholiadau 2011, 30 Medi 2010 \[Wedi'i gyrchu 9 Mawrth 2011\]](#)

<sup>5</sup> [Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Arweiniad i Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru, paragraffau 107 a 109 \[Wedi'i gyrchu 23 Mawrth 2011\]](#)

## 2. System Etholiadol Cymru

### 2.1. Y System Aelodau Ychwanegol

Mae Aelodau'n cael eu hethol i'r Cynulliad Cenedlaethol drwy'r System Aelodau Ychwanegol ("SAY"). Cafodd yr SAY ei sefydlu gan *Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998*<sup>6</sup> ("Deddf 1998") a bu'n rhan annatod o'r cynigion datganoli gwreiddiol, fel yr esboniwyd yn y Papur Gwyn, *Llais dros Gymru*:

Bydd y system etholiadol yn adlewyrchu amrywiaeth y Gymru fodern ac yn sicrhau cynrychiolaeth deg i bob ardal a phlaid. Bydd gan yr etholwyr ddwy bleidlais – y naill dros un ymgeisydd i'w hetholaeth leol a'r llall dros restr blaid. Bydd hyn yn cadw'r etholaethau lleol ac yn rhoi elfen gref o gynrychiolaeth gyfrannol.<sup>7</sup>

Mae gan y Cynulliad 60 o aelodau etholedig ac mae gan bob pleidleisiwr ddwy bleidlais. Mae'r bleidlais gyntaf yn cael ei defnyddio i ethol Aelod Cynulliad lleol neu Aelod Cynulliad etholaeth yn yr un modd ag y caiff Aelodau Seneddol eu hethol i Dŷ'r Cyffredin drwy ddefnyddio'r system y Cyntaf i'r Felin ("CiF"). Mae 40 o Aelodau'r Cynulliad yn cael eu hethol ar y sail hon, un o bob etholaeth yng Nghymru.

Mae'r ail bleidlais yn cael ei defnyddio i ethol 20 aelod ychwanegol, ar sail ranbarthol, i sicrhau bod cyfanswm y seddi sydd gan bob plaid wleidyddol yn adlewyrchu'r gyfran o'r bleidlais y maen nhw'n ei chael.

System Gyfrannol Aelodau Cymysg ("MMP") yw'r SAY: mae'n defnyddio dwy elfen, un ohonyn nhw'n system Cynrychiolaeth Gyfrannol ("PR"), a'r llall yn CiF. Mae'r elfen PR yn gwneud iawn am unrhyw anghyfrannedd sy'n codi o dan CiF.<sup>8</sup> Mae systemau Cyfrannol Aelodau Cymysg yn cael eu defnyddio mewn naw cenedl-wladwriaeth: Albania, yr Almaen, Bolivia, yr Eidal, Hwngari, Lesotho, Mexico, Seland Newydd a Venezuela.<sup>9</sup>

Ar gyfer yr elfen PR, mae yna bum rhanbarth etholiadol, ac mae pob rhanbarth yn ethol pedwar aelod i'r Cynulliad.

Mae pob rhanbarth etholiadol yn cynnwys rhwng saith a naw o etholaethau. Mae pedwar Aelod Cynulliad rhanbarthol yn cael eu hethol ym mhob un o'r rhanbarthau.

---

<sup>6</sup> [Deddf Llywodraeth Cymru 1998 \(p.38\)](#)

<sup>7</sup> Y Swyddfa Gymreig, *Llais dros Gymru: Cynigion y Llywodraeth ar gyfer Cynulliad i Gymru*, 1997, Cm3718

<sup>8</sup> [IDEA, \*Electoral System Design: the New International IDEA Handbook, 2011\*, pennod 2, paragraff 68 \[Wedi'i gyrchu 22 Chwefror 2011\]](#)

<sup>9</sup> [Ibid. pennod 3, tabl 4 \[Wedi'i gyrchu 22 Chwefror 2011\]](#)



Dyma'r pum rhanbarth etholiadol:

- Gogledd Cymru;
- Canolbarth a Gorllewin Cymru;
- Dwyrain De Cymru;
- Gorllewin De Cymru;
- Canol De Cymru.

Mae'r rhestrau rhanbarthol yng Nghymru yn "rhestrau caeedig" sy'n golygu bod y pleidleiswyr yn pleidleisio dros blaid wleidyddol. Mae'r papurau pleidleisio yn dangos rhestr o enwau'r ymgeiswyr sydd wedi'u henwebu gan bob plaid wleidyddol ac mae'r ymgeiswyr sy'n llwyddo i gael eu hethol yn cael eu tynnu oddi ar frig rhestr y blaid berthnasol. Gall ymgeiswyr annibynnol unigol hefyd sefyll ar y rhestr.

Rhaid i restrau rhanbarthol plaid beidio â chynnwys person sydd ar restr plaid arall yn yr un rhanbarth neu sydd ar restr ranbarthol arall, ac ni chaniateir i ymgeiswyr unigol gael eu cynnwys ar yr un pryd ar restrau plaid na sefyll mewn mwy nag un rhanbarth. Caniateir cynnwys uchafswm o ddeuddeg o bobl ac isafswm o un ar restr ranbarthol plaid.

Mae Deddf 2006, a drosodd ac a ddiwygiodd Ddeddf 1998, yn nodi'r dulliau a'r gweithdrefnau ar gyfer ethol Aelodau Ychwanegol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

## 2.2. Fformwla d'Hondt

Yn etholiadau'r Cynulliad, mae fformiwla d'Hondt, a enwyd ar ôl y mathemategydd a'r seffolegydd<sup>10</sup> o Wlad Belg a'i dyfeisiodd, yn cael ei defnyddio i benderfynu pa bleidiau sy'n ennill seddi'r rhestr ranbarthol. Mae'r fformiwla'n cael ei defnyddio'n gyffredin i ddyrannu seddi mewn gwledydd sydd â systemau PR sy'n defnyddio rhestrau plaid, er enghraifft, Gwlad Belg.

"Dull cyfartaleddau uchaf" yw fformiwla d'Hondt, ac mae'n golygu bod rhaid i nifer y pleidleisiau i bob plaid gael ei rannu â chyfres o ranyddion y naill ar ôl y llall, ac mae'r seddi'n cael eu dyrannu i'r pleidiau sy'n sicrhau'r cyniferydd neu'r cyfartaledd uchaf, hyd at gyfanswm y seddi sydd ar gael.

Yn achos Cynulliad Cenedlaethol Cymru, mae'r pedwar Aelod ychwanegol o bob un o'r pum rhanbarth yn cael eu hethol drwy'r dull canlynol:

- mae nifer y pleidleisiau a fwriwyd dros bob plaid ar ail bapur pleidleisio'r etholwyr ym mhob rhanbarth etholiadol yn cael ei gyfrif;

---

<sup>10</sup> [Person sy'n astudio etholiadau a phatrymau pleidleisio yw seffolegydd](#)

- mae'r cyfanswm hwn yn cael ei rannu â nifer y seddi etholaeth a enillodd y blaid honno o dan CiF plws un.

Gellir mynegi'r fformiwla fel hyn:

**A/(B+1)** lle:

**A** = cyfanswm y pleidleisiau yn y rhanbarth etholiadol a fwriwyd dros y blaid honno ar draws pob un o'r etholaethau yn y rhanbarth etholiadol;

**B** = cyfanswm y seddi etholaeth a enillodd y blaid honno yn y rhanbarth etholiadol hwnnw; a

3) Y blaid sydd â'r rhif uchaf ar ôl y cyfrifiad hwn fydd yn ennill yr Aelod ychwanegol cyntaf.

4) Mae'r cyfrifiad yn cael ei ailadrodd ar gyfer yr ail i'r pedwerydd aelod ychwanegol, gan rannu'r bleidlais dros restr y blaid ym mhob achos â nifer y seddi etholaeth plws un, ac unrhyw seddi i aelodau ychwanegol a ddyrannwyd yn y rowndiau blaenorol. Mae'r tabl isod yn dangos sut mae'r fformiwla'n gweithio. Er enghraifft, enillodd Plaid A 116 o bleidleisiau o dan ddewisiadau plaid yr etholwyr ond llwyddodd i sicrhau pedwar o aelodau etholaeth. Felly, mae 116 yn cael ei rannu â 5 (4 plws 1) gan roi cyfanswm o 23.2. Yn yr un modd, enillodd Pleidiau C ac CH ddwy sedd etholaeth yr un, felly mae eu pleidleisiau nhw yn yr ail falot yn cael eu rhannu â 2 plws 1, sy'n rhoi cyfanswm o 20.3 a 18.7 yn eu tro. Y blaid sydd â'r rhif uchaf ar ôl y cyfrifiad hwn sy'n ennill yr aelod ychwanegol cyntaf, sef Plaid B yn yr achos hwn.

**Tabl 1: Enghraifft o ddefnyddio fformiwla d'Hondt i ethol Aelodau Cynulliad rhanbarthol<sup>11</sup>**

Mae'r enghraifft hon yn cynnwys pedair plaid mewn rhanbarth sydd ag wyth etholaeth

	Plaid A	Plaid B	Plaid C	Plaid CH
Cyfanswm y pleidleisiau a fwriwyd dros y pleidiau	50,000	62,000	48,000	36,000
Seddi CiF a enillwyd	3	3	2	0
Cyfanswm y rhaniad (CiF + 1)	4	4	3	1

Byddai'r sedd gyntaf yn cael ei dyrannu fel a ganlyn, gyda nifer y pleidleisiau ar gyfer pob plaid yn cael ei rannu gyda'r cyfanswm ar gyfer pob plaid:

Y sedd ychwanegol gyntaf	$50,000 \div 4 = 12,500$	$62,000 \div 4 = 15,500$	$48,000 \div 3 = 16,000$	$36,000 \div 1 = \mathbf{36,000}$
--------------------------	--------------------------	--------------------------	--------------------------	-----------------------------------

Plaid CH, gyda chyfanswm o 36,000 pleidlais, fyddai'n cipio'r sedd gyntaf, gan ychwanegu un marc i'w cyfanswm. Byddai'r ail sedd yn cael ei dyrannu fel a ganlyn:

Yr ail sedd ychwanegol	$50,000 \div 4 = 12,500$	$62,000 \div 4 = 15,500$	$48,000 \div 3 = 16,000$	$36,000 \div 2 = \mathbf{18,000}$
------------------------	--------------------------	--------------------------	--------------------------	-----------------------------------

---

<sup>11</sup> [Ffynhonnell: Gwefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Sut caiff y Cynulliad ei ethol \[Wedi'i gyrchu 23 Mawrth 2011\]](#)

Plaid CH, gyda chyfanswm o 18,000 pleidlais, fyddai'n cipio'r ail sedd, gan ychwanegu marc arall i'w chyfanswm. Byddai'r drydedd sedd yn cael ei dyrannu fel a ganlyn:

Y drydedd sedd ychwanegol	$50,000 \div 4 = 12,500$	$62,000 \div 4 = 15,500$	$48,000 \div 3 = \mathbf{16,000}$	$36,000 \div 3 = 12,000$
---------------------------	--------------------------	--------------------------	-----------------------------------	--------------------------

Plaid C, gyda chyfanswm o 16,000 pleidlais, fyddai'n cipio'r drydedd sedd, gan ychwanegu marc i'w chyfanswm. Byddai'r bedwaredd sedd yn cael ei dyrannu fel a ganlyn:

Y bedwaredd sedd ychwanegol	$50,000 \div 4 = 12,500$	$62,000 \div 4 = \mathbf{15,500}$	$48,000 \div 4 = 12,000$	$36,000 \div 3 = 12,000$
-----------------------------	--------------------------	-----------------------------------	--------------------------	--------------------------

Plaid B, gyda chyfanswm o 15,500 pleidlais, fyddai'n cipio'r sedd olaf. Felly, y canlyniadau ar gyfer pob plaid yn y rhanbarth hon fyddai:

Seddi CiF	3	3	2	0
Aelodau Ychwanegol	0	1	1	2
Cyfanswm yr Aelodau Cynulliad	3	4	3	2

### 2.3. *Ymgeiswyr Deuol*

Yn etholiadau'r Cynulliad ym 1999 a 2003, gallai ymgeiswyr sefyll i gael eu hethol mewn etholaeth a chynnig eu henwau i gael eu hethol ar y rhestr ranbarthol. Ond, yn sgil pasio Deddf 2006 nid yw'r ymgeiswyr yn cael gwneud hyn mwyach a'r etholiad i'r Cynulliad yn 2007 oedd y cyntaf i gael ei gynnal gyda'r rheol newydd hon.

Mae adran 7 o Ddeddf 2006 yn nodi'r rheolau a ganlyn mewn perthynas â'r hawl i fod yn ymgeisydd ar gyfer etholaethau a rhanbarthau etholiadol y Cynulliad mewn etholiad cyffredinol:

- Ni chaiff person fod yn ymgeisydd mewn mwy nag un etholaeth;
- Ni chaniateir i berson gael ei gynnwys gan blaid wleidyddol gofrestredig ar ei rhestr o ymgeiswyr mewn mwy nag un rhanbarth etholiadol;
- Ni chaniateir i berson sy'n ymgeisydd ar gyfer unrhyw etholaeth gael ei gynnwys ar unrhyw un o restrau rhanbarthol y blaid; ac

- Ni chaiff person fod yn ymgeisydd unigol mewn rhanbarth etholiadol os yw'r person hwnnw hefyd yn ymgeisydd mewn unrhyw etholaeth neu os yw ar unrhyw restr o ymgeiswyr a gyflwynir gan unrhyw blaid wleidyddol gofrestredig ar gyfer unrhyw ranbarth etholiadol.

### 3. Cynnal a gweinyddu Etholiad i'r Cynulliad

Mae adran 13 o Ddeddf 2006 yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i nodi manylion sut i gynnal etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol drwy Orchymyn. Darperir y rheolau ynglŷn â chynnal etholiad 2011 gan *Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) (Diwygio) 2010* ("Gorchymyn 2010")<sup>12</sup> a *Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007* ("Gorchymyn 2007").<sup>13</sup>

Mae Gorchymyn 2007 yn cynnwys y prif fanylion ynglŷn â gweithdrefnau'r etholiad, gan gynnwys y dull pleidleisio, trefn gorsafoedd pleidleisio, dyletswyddau swyddogion canlyniadau, trefn ymgyrchoedd etholiad ac achosion cyfreithiol os ceir her.

Mae Gorchymyn 2010 yn diweddarau agweddau penodol ar Orchymyn 2007 ac mae'n gwneud newidiadau i'r Gorchymyn hwnnw sy'n dechnegol ac yn ganlyniadol yn bennaf.

#### 3.1. *Dyddiad ac amser yr etholiad*

Mae paragraff 1 o Atodlen 5 i Orchymyn 2007 yn datgan y bydd y **pleidleisio ar gyfer yr etholiad yn digwydd rhwng 7am a 10pm ddydd Iau, 5 Mai 2011.**

#### 3.2. *Amrywio dyddiad yr etholiad*

Mae adran 3(1) o Ddeddf 2006 yn datgan y bydd etholiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol yn cael eu cynnal bob pedair blynedd ar ddydd Iau cyntaf mis Mai. Cynhaliwyd yr etholiadau blaenorol ym 1999, 2003 a 2007 a chynhelir yr etholiad i'r Pedwerydd Cynulliad ar 5 Mai 2011.

Er hynny, mae adran 4 o Ddeddf 2006 yn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol amrywio dyddiad etholiadau o'r fath trwy Orchymyn, fis yn gynharach neu'n hwyrach na'r dydd Iau cyntaf ym mis Mai.

Nod y *Mesur Seneddau Cyfnod Penodol*,<sup>14</sup> sy'n destun gwaith craffu yn Senedd y Deyrnas Unedig ar hyn o bryd, yw cyflwyno Seneddau am dymor gosod o bum mlynedd ar gyfer Tŷ'r Cyffredin, gan bennu dyddiad Etholiad Cyffredinol nesaf y Deyrnas Unedig ar 7 Mai 2015. O'i ddeddfu, byddai hynny'n golygu y byddai Etholiad Cyffredinol y Deyrnas Unedig yn 2015 yn syrthio ar yr un diwrnod ag etholiadau nesaf y cenhedloedd datganoledig.

---

<sup>12</sup> [Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru \(Cynrychiolaeth y Bobl\) \(Diwygio\) 2010, \(OS/2931\)](#)

<sup>13</sup> [Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru \(Cynrychiolaeth y Bobl\) 2007, \(OS/236\).](#)

<sup>14</sup> [Mesur Seneddau Cyfnod Penodol](#)

Mae'r posibilrwydd o symud yr etholiadau datganoledig yn 2015 yn cael ei drafod ar hyn o bryd rhwng Dirprwy Brif Weinidog y Deyrnas Unedig a Phrif Weinidogion Cymru a'r Alban.<sup>15</sup> Mae Senedd yr Alban a'r Cynulliad Cenedlaethol wedi pasio cynigion o blaid symudiadau i ymestyn y tymor nesaf o flwyddyn ychwanegol.<sup>16</sup> Serch hynny, Llywodraeth y Deyrnas Unedig fydd yn cymryd y penderfyniad terfynol ar y mater.

### 3.3. Cyfuno pleidleisiau

Bydd yr etholiad yn digwydd ar yr un diwrnod â'r refferendwm ar y system bleidleisio ar gyfer etholiadau Seneddol y Deyrnas Unedig.

Mae adran 4(2) ynghyd ag Atodlen 6 i *Ddeddf Systemau Pleidleisio ac Etholaethau'r Senedd 2011*<sup>17</sup> ("PVSCA 2011") yn caniatáu i'r ddwy bleidlais gael eu cynnal gyda'i gilydd, gan nodi'r prosesau y mae angen eu cymryd cyn ac yn ystod y bleidlais ei hun. Mae'r rhain yn cynnwys rheolau sy'n gymwys wrth gyfrif y pleidleisiau ac wrth gyhoeddi canlyniadau'r ddwy bleidlais.

Mae PVSCA 2011 hefyd yn darparu strwythur rheoli newydd ar gyfer y cyfuniad o bleidlais y refferendwm a phleidlais yr etholiad. Mae hyn yn cynnwys penodi Prif Swyddog Cyfrif ar gyfer y refferendwm sydd yn ei dro yn penodi Swyddogion Cyfrif Rhanbarthol ar gyfer ardaloedd yn y Deyrnas Unedig. **Jenny Watson, Cadeirydd y Comisiwn Etholiadol sydd wedi'i phenodi'n Brif Swyddog Cyfrif i'r refferendwm. Bryn Parry-Jones, Prif Weithredwr Cyngor Sir Penfro yw Swyddog Cyfrif Etholiadol rhanbarth etholiadol Cymru.** Dyma'i rôl yntau:

... co-ordinate the planning and administration of the poll across Wales, monitor the performance of Counting Officers for each voting area with yng Nghymru, deliver briefing sessions for Counting Officers in conjunction with the Chief Counting Officer, and manage the results collation process yng Nghymru.<sup>18</sup>

Yn ychwanegol, bydd **Swyddogion Cyfrif** hefyd yn cael eu penodi i gynnal y refferendwm yn eu hardal. Mae PVSCA 2011 yn darparu i'r Swyddog Cyfrif gyflawni nifer o swyddogaethau sy'n gyffredin i bleidlais mewn refferendwm y byddai Swyddog Canlyniadau fel arfer yn gyfrifol amdany'n nhw mewn etholiad, megis darparu gorsafoedd pleidleisio, penodi Clercod Pleidleisio ac anfon cardiau pleidleisio cyfunol.<sup>19</sup>

Er mwyn sicrhau ymagwedd gyson tuag at gyflawni'r holl etholiadau a gynhelir ar 5 Mai 2011, mae *Grŵp Llywio Etholiadau a Refferenda y Comisiwn Etholiadol* wedi bod yn cyfarfod yn fisol ers Medi 2010. Mewn datganiad a gyhoeddwyd yn sgil

---

<sup>15</sup> Politics.co.uk, *Whitehall defied over 2015 Election Date*, 18 Chwefror 2011.

<sup>16</sup> [Cofnod y Trafodion, 16 Mawrth 2011](#)

<sup>17</sup> Ddeddf Systemau Pleidleisio ac Etholaethau Seneddol 2011

<sup>18</sup> [Y Comisiwn Etholiadol, Referendum on the UK Parliamentary voting system and elections to the National Assembly for Wales 5 May 2011: Planning and organisation, 2011, paragraff 1.8 \[Wedi'i gyrchu 18 Mawrth 2011\]](#)

<sup>19</sup> Ibid, paragraff 1.12

pasio Deddf PVSCA 2011 yn Chwefror 2011, dywedodd Cadeirydd y Comisiwn Etholiadol a'r Prif Swyddog Cyfrif ar gyfer y refferendwm:

Our offices in Scotland, Wales, Northern Ireland and across England have been working with Regional Counting Officers to ensure that our instructions and guidance are understood and are being applied by Counting Officers and electoral administrators, as well as providing another opportunity for electoral administrators to feed back any concerns or comments they might have about the planning process.

We will continue to work with the hundreds of local Counting Officers across the UK, making sure that they have the plans in place to ensure voters have the best possible experience at the elections and referendum on 5 May.<sup>20</sup>

### 3.4. Swyddogion Canlyniadau

Mae Gorchymyn 2007 yn rhagnodi ddau fath o Swyddog Canlyniadau sy'n cael eu penodi ar gyfer etholiadau'r Cynulliad ac sy'n gyfrifol am gynnal yr etholiad: Swyddogion Canlyniadau Rhanbarth ac Etholaeth.

**Swyddogion Canlyniadau Etholaeth** sy'n gyfrifol o dan y gyfraith am gynnal etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol.

Mae pob awdurdod lleol yn penodi Swyddog Canlyniadau, sef y Prif Weithredwr neu uwch swyddog arall i'r cyngor fel arfer, sy'n bersonol gyfrifol am gynnal yr etholiad. Bydd yr unigolyn hwn yn cael ei ddynodi'n Swyddog Canlyniadau Etholaeth ar gyfer etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol.

Swyddog Canlyniadau'r Etholaeth sy'n gyfrifol am yr enwebiadau ac am gyfrif y pleidleisiau yn ei ardal.<sup>21</sup> Mae hefyd yn ofynnol iddo benodi Swyddog Llywyddu i bob gorsaf bleidleisio yn yr ardal etholiadol, ac mae'n cael penodi cynifer o'r staff canlynol ag y bo'u hangen i helpu i gynnal yr etholiad:

- Dirprwy Swyddogion Canlyniadau;
- Staff i roi a derbyn pleidleisiau post;
- Swyddogion Llywyddu a Chlercod Pleidleisio;
- Staff cyfrif; a
- Staff eraill i helpu gyda dyletswyddau eraill fel rhan o broses yr etholiad.

Mae'n rhaid hefyd i'r **Swyddogion Canlyniadau Rhanbarthol** fod yn Swyddogion Canlyniadau llywodraeth leol ac maen nhw'n cael eu penodi gan y Cynulliad Cenedlaethol.<sup>22</sup>

Y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol yn unig sy'n gyfrifol am y canlynol:

---

<sup>20</sup> [Y Comisiwn Etholiadol, Statement by the Chair of the Electoral Commission and the Chief Counting Officer on the PVSC Act, Chwefror 2011 \[Wedi'i gyrchu 25 Chwefror 2011\]](#)

<sup>21</sup> [Y Comisiwn Etholiadol, Referendum on the UK Parliamentary voting system and elections to the National Assembly for Wales 5 May 2011: Planning and organisation, 2011, paragraff 1.14 \[Wedi'i gyrchu 18 Mawrth 2011\]](#)

<sup>22</sup> [Ibid., Rhan B, paragraffau.1.17-1.21.](#)



- enwebiadau ar gyfer yr etholiad rhanbarthol;
- cyfrifo yn unol â dull d'Hondt er mwyn dyrannu seddi rhanbarthol;
- ailgyfrifo dyraniad y seddi rhanbarthol, os gofynnir iddo; a
- dychwelyd neu fforffedu'r ernesau a gafwyd ar gyfer yr etholiad rhanbarthol.

Nid yw'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol yn gyfrifol am gynnal y bleidlais neu'r cyfrif, ac ni chaiff ofyn am ailgyfrif naill ai'r papurau pleidleisio etholaeth na'r papurau pleidleisio rhanbarth. Mae'n ofynnol iddo roi gwybod am y canlyniad rhanbarthol i Swyddog Canlyniadau'r Etholaeth, ac mae'n cael gofyn iddo arddangos hysbysiadau etc. yn lleol ynglŷn â'r rhan rhanbarthol o'r etholiad.

Ym mis Hydref 2010, cyhoeddodd y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, Carl Sargeant AC, benodi Swyddogion Canlyniadau Rhanbarthol Etholiad 2011:<sup>23</sup>

- Canolbarth a Gorllewin Cymru: swyddog canlyniadau Sir Benfro, Mr Bryn Parry-Jones;
- Gogledd Cymru: swyddog canlyniadau Cyngor Sir Ddinbych, y Dr Mohammed Mehmet;
- Canol De Cymru: swyddog canlyniadau Cyngor Dinas Caerdydd, Ms Christine Salter;
- Dwyrain De Cymru: swyddog canlyniadau Cyngor Dinas Casnewydd, Ms Tracey Lee;
- Gorllewin De Cymru: swyddog canlyniadau Cyngor Dinas Abertawe, Mr Paul Smith.

### 3.5. Cofrestru Pleidiau

Mae *Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000*<sup>24</sup> ("PPERA 2000") yn ei gwneud yn ofynnol i bleidiau gwleidyddol gofrestru gyda'r Comisiwn Etholiadol er mwyn cynnig ymgeiswyr mewn etholiad. Mae pleidiau hefyd yn cael cofrestru hyd at 12 disgrifiad gyda'r Comisiwn. Os yw'r pleidiau wedi cofrestru disgrifiadau dwyieithog ar wahân mewn Cymraeg a Saesneg, caniateir i'r ddau gael eu defnyddio.

Caiff ymgeiswyr ymladd etholiadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru fel ymgeiswyr annibynnol, er mai 'Annibynnol' a/neu 'Independent' yw'r unig ddisgrifiad y caiff yr ymgeiswyr ei ddefnyddio ar y papurau pleidleisio o dan amgylchiadau o'r fath.

<sup>23</sup> [Llywodraeth Cynulliad Cymru, Hysbysiad i'r Wasg, Gweinidog yn penodi Swyddogion Canlyniadau Rhanbarthol ar gyfer Etholiad y Cynulliad Cenedlaethol 2011, 25 Hydref 2010 \[Wedi'i gyrchu 18 Mawrth 2011\]](#)

<sup>24</sup> [Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 \(p.41\)](#)

Fel arall, maen nhw'n cael dewis defnyddio dim disgrifiad o gwbl.

Mae gan bob ymgeisydd bedwar opsiwn o ran sut y mae'n ei ddisgrifio'i hun:

- Gadael y rhan o'r ffurflen ar gyfer disgrifiad yn wag, ac os felly fydd dim disgrifiad i'w weld ar y papur pleidleisio.
- Defnyddio'r Disgrifiad 'Annibynnol' a/neu 'Independent'.
- Defnyddio enw plaid wleidyddol neu un o'i disgrifiadau cofrestredig – yr awdurdodwyd ei ddefnyddio mewn ysgriflen gan swyddog enwebu paid wleidyddol gofrestredig neu rywun a benodwyd i weithredu ar ei ran. Rhaid i'r enw neu'r disgrifiad sydd i'w ddefnyddio fod yr un fath yn union â'r hyn sydd wedi'i gofrestru gyda'r Comisiwn Etholiadol. Mae hyn yn berthnasol i ddisgrifiadau uniaith a disgrifiadau dwyieithog.
- Defnyddio'r cyd-ddisgrifiad a gofrestrwyd gan ddwy neu ragor o bleidiau gwleidyddol cofrestredig. Mae hyn yn berthnasol i ddisgrifiadau uniaith a disgrifiadau dwyieithog. Dylid nodi bod y ddarpariaeth olaf hon yn ymwneud ag ymgeiswyr etholaeth yn unig ac **nid** ag ymgeiswyr rhanbarthol.<sup>25</sup>

### 3.6. Rhedeg mewn etholiad

I fod yn gymwys fel ymgeisydd ar gyfer yr etholiad (ar lefel etholaeth a rhanbarth), rhaid i berson fodloni'r meini prawf a ganlyn ar y diwrnod y mae'n cael ei enwebu ac ar ddiwrnod y bleidlais. Mae'r meini prawf yn cynnwys ei fod:

- wedi cyrraedd 18 oed o leiaf, ac
- yn ddinesydd Prydeinig, yn ddinesydd un arall o wledydd y Gymanwlad, yn ddinesydd o Weriniaeth Iwerddon, neu'n ddinesydd o un arall o aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd.

Mae nifer o anghymwysiaid rhag bod yn aelod o'r Cynulliad Cenedlaethol, rhai ohonynt yn debyg i'r rhai sy'n gymwys i aelodaeth o Senedd y Deyrnas Unedig neu Senedd Ewrop. Mae person wedi'i anghymhwyso rhag bod yn aelod o Dŷ'r Cyffredin dan *Ddeddf Anghymhwyso o Dŷ'r Cyffredin 1975* os yw'n farnwr, yn was sifil, yn aelod o'r lluoedd arfog, yn aelod o'r heddlu neu'n aelod o deddfwrfa dramor. Mae'r anghymwysiaid hyn yn gymwys hefyd i aelodaeth o Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae *Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwyso) 2010*<sup>26</sup> hefyd yn anghymhwyso nifer o ddeiliaid swyddi penodol rhag bod yn aelodau o Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r rhain wedi'u rhestru yn **Atodiad 2**. Mae'r Comisiwn

---

<sup>25</sup> [Y Comisiwn Etholiadol, Sefyll dros Blaid Wleidyddol, Etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2011 \[Wedi'i gyrchu 22 Mawrth 2011\].](#)

<sup>26</sup> [Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru \(Anghymhwyso\) 2010. UK SI10 2965 2010.](#)

Etholiadol yn cynghori ymgeiswyr i ymgynghori â'r ddeddfwriaeth berthnasol i sicrhau na fydd yr un o'r anghymwysiaid perthnasol yn gymwys iddyn nhw.

### 3.7. *Enwebu*

Er mwyn ymladd yr etholiad, mae'n rhaid i'r darpar ymgeiswyr gwblhau set o bapurau enwebu a'u cyflwyno i Swyddog Canlyniadau'r Etholaeth neu i'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol priodol erbyn **12 canol dydd** ar 4 Ebrill 2011.

Rhaid i'r papur enwebu ar gyfer Ymgeiswyr Etholaeth gynnwys enw llawn yr ymgeisydd, ei gyfeiriad cartref llawn a disgrifiad perthnasol. Bydd y manylion ar y papur enwebu yn cael eu hatgynhyrchu ar y datganiad o bersonau sydd wedi'u henwebu ac, yn y pen draw, ar y papur pleidleisio.

Rhaid i bob rhestr ranbarthol a gyflwynir nodi enwau a chyfeiriadau cartref llawn pob ymgeisydd a gynhwysir yn y rhestr honno yn y drefn y byddai'r seddi ranbarthol yn cael eu dyrannu iddyn nhw a chael ei chyflwyno ynghyd â datganiad o'r enwau a ddefnyddir i ddisgrifio pob ymgeisydd yn y papur pleidleisio ranbarthol.

Wrth gyflwyno'u papurau enwebu, rhaid i'r ymgeiswyr roi ernes o £500 mewn arian parod neu ddrafft banc (gall mathau eraill o arian cyfreithlon gael eu derbyn). Dim ond ymgeiswyr sy'n cael mwy na phump y cant o gyfanswm y pleidleisiau a fwriwyd yn eu hetholaeth a gaiff eu blaendal yn ôl; mae'r lleill yn cael eu fforffedu.<sup>27</sup>

### 3.8. *Ymgyrchu*

Dim ond **ar ôl i hysbysiad o'r etholiad gael ei gyhoeddi ar 25 Mawrth 2011** y gall person sy'n ymladd etholiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol ddod yn ymgeisydd swyddogol.

Mae gan ymgeisydd swyddogol hawl i gael copi o'r gofrestr etholwyr ac o restrau o bleidleiswyr absennol ac mae hefyd yn cael defnyddio ystafelloedd ac ysgolion a ariennir yn gyhoeddus ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus. Mae gan ymgeisydd swyddogol hawl hefyd i anfon un postiad yn rhad ac am ddim.<sup>28</sup>

Mae'r Comisiwn Etholiadol hefyd wedi darparu'r arweiniad a ganlyn i ymgeiswyr ar yr hyn y caniateir ac na chaniateir ei gynnwys yn eu cyhoeddusrwydd ymgyrchu:

**Dylech chi:**

---

<sup>27</sup> [Y Comisiwn Etholiadol, Canllawiau i Ymgeiswyr yn Etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2011 \[Wedi'i gyrchu 18 Mawrth 2011\]](#)

<sup>28</sup> [Y Comisiwn Etholiadol, Gair i Gall wrth ymgyrchu, Tudalen 2 \[Wedi'i gyrchu 18 Mawrth 2011\]](#)

Ddefnyddio argraffnodau ar eich holl ddeunydd ymgyrch, gan gynnwys safweoedd. Gweler isod i gael rhagor o wybodaeth ar argraffnodau.

Ystyried sut i wneud eich ymgyrch yn fwy hygyrch i bobl sydd â nam ar eu golwg, sydd ag anawsterau dysgu neu sgiliau llythrennedd isel, neu nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf Gydydffurfio â rheolau cynllunio mewn cysylltiad â hysbysfyrddau hysbysebu a baneri mawr - gallwch chi ofyn i'r awdurdod lleol perthnasol am gyngor.

Cofiwch sicrhau bod posterï yn yr awyr agored yn cael eu symud yn brydlon ar ôl yr etholiad - mae rhaid ichi wneud hyn o fewn dwy wythnos

**Mae rhaid ichi beidio â:**

Chynhyrchu deunydd sy'n edrych fel y cardiau pleidleisio a anfonir i bleidleiswyr gan y Swyddog Canlyniadau.

Talu i bobl arddangos eich hysbysebion (oni bai eu bod yn arddangos hysbysebion fel rhan o'u busnes arferol).<sup>29</sup>

Er hynny, dydy'r Comisiwn Etholiadol ddim yn rheoleiddio'r hyn sy'n cael ei gynnwys mewn deunyddiau ymgyrchu ac mae'n methu cynnig sylwadau ar gyfreithlondeb unrhyw ddeunyddiau etholiadol heblaw'r uchod.

### 3.9. Cyllid yr ymgyrch

Dim ond pobl benodol sydd â'r awdurdod i ysgwyddo costau mewn etholiad, sef:

- yr ymgeisydd;
- yr asiant etholiadol; ac
- unrhyw unigolyn neu sefydliad sydd wedi'i awdurdodi mewn ysgrifen gan yr asiant etholiadol.

Mae ymgeiswyr sy'n ymladd seddi etholaeth mewn etholiadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn dod o dan gyfyngiadau ar eu gwariant ar eitemau a gwasanaethau a ddefnyddir yn ystod y cyfnod a reoleiddir cyn etholiad. Mae hyn yn gymwys hefyd i Ymgeiswyr Rhestr **unigol** (hynny yw Ymgeiswyr Rhestr nad ydyn nhw ar Restr plaid wleidyddol gofrestredig).<sup>30</sup>

Amlinellir y cyfyngiadau cyfredol ar gyfer pob math o sedd isod:

Y math o Sedd	Y Cyfyngiad
Bwrdeistref (etholaeth)	£7,150 plws 5 ceiniog am bob etholwr ar y gofrestr etholwyr berthnasol
Sir (etholaeth)	£7,150 plws 7 ceiniog am bob etholwr ar y gofrestr etholwyr berthnasol
Unigolyn mewn Rhanbarth	Cyfanswm y cyfyngiadau uchaf ar gyfer pob etholaeth yn y rhanbarth. <sup>31</sup>

<sup>29</sup> [Y Comisiwn Etholiadol, Gair i Gall wrth ymgyrchu, Tudalen 8 \[Wedi'i gyrchu 18 Mawrth 2011\]](#)

<sup>30</sup> [Y Comisiwn Etholiadol, Canllawiau i Ymgeiswyr yn Etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Gwariant Ymgeiswyr, 2011 \[Wedi'i gyrchu 23 Mawrth 2011\].](#)

<sup>31</sup> Ibid, tudalen 6

Y gofrestr etholwyr berthnasol yw'r gofrestr etholwyr yn yr etholaeth ar y diwrnod olaf ar gyfer cyhoeddi'r rhybudd o'r etholiad. I osgoi'r posibilrwydd o gamgyfrif y terfynau gwariant, cyngor y Comisiwn Etholiadol yw y dylai'r ymgeiswyr a'r asiantau gadarnhau'r ffigur perthnasol yn y gofrestr gyda'r Swyddog Canlyniadau.

Gall ymgeiswyr hefyd ysgwyddo "treuliau personol". Nid yw'r treuliau hyn yn cyfrif at y terfynau gwariant uchaf a nodwyd uchod, ond mae angen eu cofnodi a hynny am fod rhaid adrodd arnyn nhw yn y ffurflen gwariant a gyflwynir gan bob un o'r ymgeiswyr ar ôl yr etholiad. Treuliau personol yw unrhyw wariant ar siwrneiau, llety a chynhaliath yr ymgeisydd mewn perthynas â chael eu hethol.<sup>32</sup>

Dim ond yn ystod y "cyfnod rheoledig" y mae'r terfynau gwario hyn yn berthnasol, sef y cyfnod rhwng y dyddiad cynharaf y daw person yn ymgeisydd swyddogol (25 Mawrth 2011) a dyddiad yr etholiad (5 Mai 2011).

### *3.10. Gwariant y pleidiau ar ymgyrchu a chostau etholiadol ymgeiswyr ar restrau'r pleidiau*

Yn etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol, er bod yr holl wariant i hyrwyddo ymgeiswyr etholaeth yn gyfystyr â gwariant etholiad ymgeiswyr ac yn cael ei reoleiddio o dan Orchymyn 2007, dylid nodi bod gwariant i hyrwyddo ymgeiswyr ar restr plaid yn gyfystyr â gwariant ar ymgyrch plaid ac yn cael ei reoleiddio o dan PPERA 2000. Mae'n rhaid felly i'r holl wariant gan ymgeiswyr ar restr plaid gael ei adrodd fel gwariant ymgyrch plaid o dan delerau PPERA 2000.

Nid yw'n ofynnol i ymgeiswyr ar restr plaid gyflwyno ffurflenni treuliau etholiad. Er hynny, mae'r ymgeiswyr ar restr plaid yn dod o dan gyfyngiadau ar eu treuliau personol a rhaid iddyn nhw lenwi a chyflwyno ffurflen ynghylch treuliau personol.

---

<sup>32</sup> [Y Comisiwn Etholiadol, Canllawiau i Ymgeiswyr yn Etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Gwariant Ymgeiswyr, 2011 \[Wedi'i gyrchu 23 Mawrth 2011\].](#)

## 4. Pwy sy'n pleidleisio?

### 4.1. Pwy sy'n cael pleidleisio?

Mae adran 12(1) o Ddeddf 2006 yn datgan mai dim ond pobl sydd wedi'u cofrestru i bleidleisio mewn etholiadau Llywodraeth Leol yng Nghymru sy'n gymwys i bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol. Yn ôl y Comisiwn Etholiadol, caiff y bobl ganlynol gofrestru i bleidleisio mewn etholiadau o'r fath:

- dinesydd Prydeinig sy'n byw yn y Deyrnas Unedig;
- dinesydd cymwys o'r Gymanwlad sy'n byw yn y Deyrnas Unedig;
- dinesydd o Weriniaeth Iwerddon sy'n byw yn y Deyrnas Unedig; neu
- ddinesydd o'r Undeb Ewropeaidd sy'n byw yn y Deyrnas Unedig.<sup>33</sup>

Mae'n **rhaid** hefyd iddyn nhw fod wedi'u cofrestru yng Nghymru i fod yn gymwys i bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol.

Er bod gan ddinesydd o Aelod-wladwriaeth arall o'r Undeb Ewropeaidd (UE) sy'n preswyllo yn y Deyrnas Unedig hawl i bleidleisio mewn etholiadau datganoledig, etholiadau Llywodraeth Leol ac etholiadau i Senedd Ewrop, dydyn nhw ddim yn cael pleidleisio yn Etholiadau Cyffredinol y Deyrnas Unedig.

Yn ymarferol, mae hyn yn golygu y **bydd dinesydd o'r UE sy'n preswyllo yn y Deyrnas Unedig yn gymwys i bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol ar 5 Mai 2011, ond na fydd yn gymwys i bleidleisio yn y refferendwm ar y system bleidleisio ar gyfer etholiadau Seneddol y Deyrnas Unedig a fydd yn cael ei gynnal ar yr un diwrnod.**

### 4.1. Hawliau pleidleisio i garcharorion

Ym mis Hydref 2005, dyfarnodd Llys Hawliau Dynol Ewrop yn achos John Hirst fod y gwaharddiad a oedd yn bodoli ar allu carcharorion i bleidleisio yn groes i Erthygl 3, Protocol 1 o'r *Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol* – yr hawl i etholiadau rhydd a theg. Gan nad oedd y penderfyniad hwn wedi cael ei weithredu gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig ers 2005, cyhoeddodd Llys Hawliau Dynol Ewrop ddyfarniad arall ym mis Tachwedd 2010 a oedd yn datgan y dylai'r penderfyniad gael ei weithredu cyn mis Awst 2011.

Mewn datganiad ysgrifenedig a gyhoeddwyd mewn ymateb i ddyfarniad Llys Hawliau Dynol Ewrop ar 20 Rhagfyr 2010, dywedodd y Gwir Anrhydeddus Mark Harper AS, yr Ysgrifennydd Seneddol dros Swyddfa'r Cabinet:

... this is not a choice: it is a legal obligation ... we will act to implement the judgment of the European Court of Human Rights ...

---

<sup>33</sup> [Fy Mhleidlais i, Etholiadau sy'n digwydd yn eich ardal chi: Allaf i bleidleisio mewn etholiadau llywodraeth leol? \[Wedi'i gyrchu 18 Mawrth 2011\]](#)

The Government will therefore bring forward legislation providing that the blanket ban in the existing law will be replaced. Offenders sentenced to a custodial sentence of four years or more will lose the right to vote in all circumstances, which reflects the Government's clear view that more serious offenders should not retain the right to vote. Offenders sentenced to a custodial sentence of less than four years will retain the right to vote, but legislation will provide that the sentencing judge will be able to remove that right if they consider that appropriate. Four years has in the past been regarded as the distinction between short and long-term prisoners, and the Government consider that permitting prisoners sentenced to less than four years' imprisonment to vote is sufficient to comply with the judgment.

**The right to vote will be restricted to UK Westminster Parliamentary and European Parliament elections only, and not in other elections or referendums [pwyslais MRS].**

That is the minimum currently required by the law (a case considering whether article 3, protocol 1 applies to elections to the Northern Ireland Assembly is currently before the European Court of Human Rights: the Government's position is that they do not).<sup>34</sup>

Mewn gwrthgyferbyniad i'r farn hon fodd bynnag, dywedodd Aidan O'Neill CF, bargyfreithiwr sy'n arbenigo mewn hawliau carcharorion, wrth Bwyllgor Diwygio Gwleidyddol a Chyfansoddiadol Tŷ'r Cyffredin y byddai etholiadau i Senedd yr Alban a'r Cynulliad Cenedlaethol, yn ogystal ag etholiadau i Senedd y Deyrnas Unedig a Senedd Ewrop, hefyd yn ddarostyngedig i ddyfarniad Llys Hawliau Dynol Ewrop:

There are elections coming up on 5 Mai 2011 in Scotland and Wales. Those elections on the current franchise are going to be Convention-incompatible again; so there is an urgency about that. There is an added urgency to that because elections to the Scottish and Welsh parliaments are covered by not just European human rights law but European Union law.<sup>35</sup>

Cadarnhaodd datganiad i'r wasg a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Cabinet yn Rhagfyr 2010 y byddai deddfwriaeth ar hawliau pleidleisio carcharorion yn cael ei chyflwyno gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig rywbryd yn ystod 2011 ar gyfer dadl yn Senedd y Deyrnas Unedig.<sup>36</sup> Nid yw Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi cyflwyno deddfwriaeth o'r fath eto, ond cafodd cynnig yn gwrthwynebu dyfarniad Llys Hawliau Dynol Ewrop ei gefnogi gan fwyafrif llethol o'r Aelodau Seneddol yn Nhŷ'r Cyffredin ar 10 Chwefror 2011.<sup>37</sup>

**Ar hyn o bryd felly, bydd pobl sydd wedi cael eu dyfarnu'n euog o drosedd yn dal yn anghymwys i bleidleisio yn yr etholiad a'r refferendwm ar 5 Mai 2011.**

---

<sup>34</sup> [HC Deb 20 Rhagfyr 2010 c150-1WS \[Wedi'i gyrchu 2 Mawrth 2011\]](#)

<sup>35</sup> [HC Political and Constitutional Reform Committee Deb 1 Chwefror 2011 \[Wedi'i gyrchu 2 Mawrth 2011\]](#)

<sup>36</sup> [Hysbysioad i'r Wasg gan Swyddfa'r Cabinet, \*Government approach to prisoner voting rights\*, 17 Rhagfyr 2010 \[Wedi'i gyrchu 2 Mawrth 2011\]](#)

<sup>37</sup> [HC Deb 10 Chwefror 2011 c493 \[Wedi'i gyrchu 2 Mawrth 2011\]](#)

## 4.2. Cofrestru

Cofrestru etholiadol yw'r broses o gasglu a chadw'r gofrestr etholwyr. Mae Adran 8 o *Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983*<sup>38</sup> yn ei gwneud yn ofynnol i Swyddogion Cofrestru Etholiadol gael eu penodi er mwyn cofrestru etholwyr. Mae'n ofynnol i Swyddogion Cofrestru Etholiadol baratoi a chyhoeddi cofrestr o'r etholwyr ar gyfer eu hardal bob blwyddyn a'i diweddarau drwy gydol y flwyddyn. Mae ganddynt ddyletswydd statudol i gynnwys enwau pawb y mae'n ymddangos iddynt eu bod yn gymwys, gan gymryd camau rhesymol i gasglu'r wybodaeth sydd ei hangen.

Mae dwy ffordd o gofrestru i bleidleisio. Y ffordd gyntaf yw'r "Canfasiad Blynyddol" pan gaiff ffurflen ei hanfon i bob tŷ er mwyn i'r preswylwyr gofrestru rhwng mis Medi a mis Tachwedd bob blwyddyn. Yr ail yw'r broses o gofrestru graddol lle gellir cofrestru ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn gan fod y gofrestr yn cael ei diweddarau bob mis rhwng mis Rhagfyr a mis Medi.

Er nad yw cofrestru'n orfodol, mae gan Swyddog Cofrestru Etholiadol hawl i ofyn am wybodaeth er mwyn diweddarau'r gofrestr etholwyr. Pennwyd cosb am beidio â llenwi a dychwelyd y ffurflen gofrestru etholwyr neu am roi gwybodaeth anghywir am y tro cyntaf ym 1918 ac estynnwyd hynny i gynnwys cofrestru graddol yn 2006. Y gosb bresennol am y trosedd hwn yw dirwy heb fod yn fwy na £1,000.

**Nid oes angen cofrestru'n benodol ar gyfer y refferendwm; os yw pleidleisiwr ar y gofrestr etholwyr yna bydd yn gallu pleidleisio. Fodd bynnag, os nad yw pleidleisiwr ar y gofrestr etholwyr, y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau er mwyn gallu pleidleisio yn y refferendwm yw hanner nos ar 14 Ebrill 2011.<sup>39</sup> Os yw pleidleisiwr wedi symud tŷ neu newid ei enw yn ddiweddar, bydd angen iddo ailgofrestru er mwyn bod yn gymwys i bleidleisio.**

## 4.3. Pleidleisio drwy ddirprwy a thrwy'r post

Gall y rhai hynny nad ydynt am fynd i'r orsaf bleidleisio ar y diwrnod pleidleisio wneud cais ymlaen llaw naill ai i bleidleisio drwy'r post neu i drefnu i rywun arall bleidleisio ar eu rhan (pleidleisio drwy ddirprwy). Gall hyn gynorthwyo pleidleiswyr anabl ac oedrannus i gymryd rhan yn y broses etholiadol.

Cyflwynwyd yr hawl i bob pleidleisiwr ddewis pleidleisio drwy'r post ar gais yn *Neddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000*,<sup>40</sup> a chryfhawyd y darpariaethau diogelwch mewn perthynas â phleidleisio drwy'r post yn dilyn hynny yn *Rheoliadau*

---

<sup>38</sup> [Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000 \(p.2\)](#)

<sup>39</sup> [Y Comisiwn Etholiadol, Refferendwm ar y System Bleidleisio Seneddol yn y DU 2011, tudalen 14 \[wedi'i gyrchu 2 Mawrth 2011\]](#)

<sup>40</sup> [Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000 \(p.2\)](#)



*Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) (Diwygio) (Rhif 2) 2006*<sup>41</sup> a *Deddf Gweinyddu Etholiadau 2006* (“EEA 2006”).<sup>42</sup>

Yn Etholiad Cyffredinol y DU ar 6 Mai 2010, anfonwyd pleidlais drwy'r post at 15 y cant o'r etholwyr cymwys a dychwelwyd 83 y cant ohonynt.<sup>43</sup> Nid oes gwybodaeth ar gael ar hyn o bryd ynglŷn â chanran yr etholwyr cymwys a wnaeth gais ac a dychwelodd bleidlais drwy'r post ar gyfer y refferendwm ar fwy o bwerau i'r Cynulliad Cenedlaethol ar 3 Mawrth 2011.

#### 4.4. *Materion ieithyddol*

Mae gallu ieithyddol yn ffactor pwysig o ran caniatáu i unigolion ddefnyddio'r broses etholiadol, p'un ai mewn perthynas â chofrestru, fel y trafodwyd uchod, neu'r weithred o bleidleisio, o ran deall y papur pleidleisio neu allu cael gafael ar gyngor. Ar hyn o bryd, mae'r prif ffurflenni statudol, fel y papurau pleidleisio a chofrestru, ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg yng Nghymru.

Mae erthygl 141 o Orchymyn 2007 yn rhoi disgrisiwn i swyddogion canlyniadau gyfieithu dogfennau i ieithoedd heblaw Cymraeg a Saesneg ac i ddefnyddio Braille, darluniau graffig neu ddull cyfathrebu arall.

Mae gwefan y Comisiwn Etholiadol, **Fy Mhleidlais i**, hefyd yn darparu gwybodaeth mewn Arabeg, Bengaleg, Tsieinëeg (traddodiadol), Gwjarati, Hindi, Latfieg, Lithwaneg, Pwyleg, Portiwgaleg, Pwnjabi ac Wrddw ac mae'n nodi bod gwybodaeth mewn ieithoedd eraill ar gael ar gais.<sup>44</sup>

#### 4.5. *Hyrwyddo Etholiadau'r Cynulliad*

Mae Atodlen 2 i Ddeddf 2006 yn darparu y caiff Comisiwn y Cynulliad hyrwyddo ymwybyddiaeth gyhoeddus o'r system etholiadol a llywodraeth ddatganoledig, naill ai'n uniongyrchol neu drwy gymorth ariannol i'r Comisiwn Etholiadol.

Lansiodd y Cynulliad Cenedlaethol ei ymgyrch [Pleidleisiwch 2011](#) ar 10 Ionawr 2011. Diben yr ymgyrch yw codi ymwybyddiaeth y cyhoedd ac annog pobl i bleidleisio yn yr etholiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol a'r refferendwm ar newid y system bleidleisio i Senedd y Deyrnas Unedig.

---

<sup>41</sup> [Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl \(Cymru a Lloegr\) \(Diwygio\) \(Rhif 2\) 2006 \(OS/2910\)](#)

<sup>42</sup> [Deddf Gweinyddu Etholiadau 2006 \(p.22\)](#)

<sup>43</sup> [Y Comisiwn Etholiadol, Report on the administration of the 2010 UK general election, Gorffennaf 2010, paragraff 5.5 \[wedi'i gyrchu 2 Mawrth 2011\]](#)

<sup>44</sup> [Y Comisiwn Etholiadol, tudalennau gwe Fy Mhleidlais i, Gwybodaeth mewn ieithoedd heblaw Cymraeg a Saesneg. \[Wedi'i gyrchu 10 Tachwedd 2010\]](#)

## 5. Diwrnod y bleidlais

### 5.1. Pwy all fynd i'r orsaf bleidleisio?

Mae paragraff 41 o Atodlen 5 i Orchymyn 2007 yn datgan bod gan y canlynol hawl i fynd i'r orsaf bleidleisio:

- pleidleiswyr;
- personau o dan 18 oed sy'n mynd gyda'r pleidleiswyr i'r orsaf bleidleisio;
- ymgeiswyr a'r asiantau etholiadol ar gyfer unrhyw ymgeiswyr etholaeth neu ymgeiswyr unigol neu ar gyfer unrhyw blaid wleidyddol gofrestredig sydd wedi'u henwebu, asiant etholiadol plaid o'r fath ar gyfer y rhestr y mae wedi'i chyflwyno;
- yr asiantwyr pleidleisio a benodwyd i fynd i'r orsaf bleidleisio;
- y clercod a benodwyd i fynd i'r orsaf bleidleisio;
- personau y mae ganddyn nhw hawl i fod yn bresennol yn rhinwedd adrannau 6A i 6D o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol 2000;
- y cwnstabiliaid sydd ar ddyletswydd; a
- chymdeithion pleidleiswyr ag anabledau.<sup>45</sup>

### 5.2. Rhifwyr

Mae'r Comisiwn Etholiadol wedi cyhoeddi canllawiau ynglŷn ag ymddygiad rhifwyr y tu allan i orsafoedd pleidleisio.<sup>46</sup> Mae rhifwyr fel arfer yn wirfoddolwyr o bleidiau gwleidyddol sy'n sefyll y tu allan i orsafoedd pleidleisio ac yn cofnodi rhifau etholiadol yr etholwyr sydd wedi pleidleisio. Yna gallant adnabod cefnogwyr tebygol sydd heb bleidleisio a'u hannog i bleidleisio cyn diwedd y pleidleisio. Er hynny, mae'n rhaid i rifwyr beidio â rhwystro nac amharu ar weinyddu effeithlon a diogel yr etholiad a rhaid iddyn nhw gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau a roddir gan y Swyddog Canlyniadau neu gan Swyddog Llywyddu'r orsaf bleidleisio. Does ganddyn nhw ddim statws cyfreithiol swyddogol ac ni chaniateir eu derbyn i'r orsaf bleidleisio yn rhinwedd eu swydd fel Rhifwr.

Yn ôl canllawiau'r Comisiwn Etholiadol, rhaid i rifwyr beidio â gwneud y canlynol:

- Gallu gweld neu glywed beth sy'n digwydd yn yr orsaf bleidleisio;
- Atal, rhwystro neu ddychryn pleidleiswyr ar eu ffordd yn ôl ac ymlaen i'r orsaf bleidleisio/man pleidleisio;
- Mynnu unrhyw wybodaeth ynghylch rhif etholwr, enw neu gyfeiriad pleidleisiwr;
- Gofyn i'r pleidleiswyr fynd yn ôl i'r orsaf bleidleisio i sicrhau eu rhif etholwr;

---

<sup>45</sup> [Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru \(Cynrychiolaeth y Bobl\) 2007, Atodlen 5, Paragraff 41](#)

<sup>46</sup> [Y Comisiwn Etholiadol, Rhifwyr: Gair i Gall \[Wedi'i gyrchu 18 Mawrth 2011\]](#)

- Cynnal trafodaethau gyda phleidleiswyr a allai arwain at honiadau o ddylanwadu'n amhriodol (e.e. bwriad wrth bleidleisio, aelodaeth neu ymgyrch plaid);
- Dangos unrhyw deunydd ymgyrchu o blaid neu yn erbyn unrhyw ymgyrchydd refferendwm, plaid neu ymgeisydd penodol heblaw rhoséd.<sup>47</sup>

Serch hynny, mae rhifwyr yn cael gwneud y canlynol:

- Gofyn i bleidleiswyr roi gwybodaeth wrth iddyn nhw fynd a dod o'r orsaf bleidleisio;
- Dangos rhoséd liw sy'n dangos enw'r ymgyrchydd refferendwm, yr ymgeisydd neu'r plaid. Rhaid i'r rhoséd beidio â bod yn rhy fawr, ond mae'n cael cynnwys disgrifiad neu arwyddlun.<sup>48</sup>

### 5.3. *Arolygon barn wrth i bobl ymadael â gorsafoedd pleidleisio*

Yn achos yr etholiad hwn, mae'n anghyfreithlon i unrhyw berson gyhoeddi'r canlynol cyn i'r gorsafoedd pleidleisio gau (**10pm ddydd Iau 5 Mai**)

- unrhyw ddatganiad sy'n ymwneud â'r ffordd y mae pleidleiswyr wedi pleidleisio yn yr etholiad lle mae'r datganiad hwnnw wedi'i seilio (neu lle y tybir ei fod wedi'i seilio) ar wybodaeth a roddwyd gan bleidleiswyr ar ôl pleidleisio;
- unrhyw ragolwg neu amcangyfrif o ran canlyniad yr etholiad sydd wedi'i seilio ar wybodaeth a roddwyd fel hyn (neu y byddai'n rhesymol cymryd ei bod wedi'i rhoi fel hyn).

Bydd unrhyw un a geir yn euog o gyflawni trosedd o'r fath yn agored i ddirwy o hyd at £5,000 neu i gyfnod o garchar o hyd at chwe mis.

### 5.4. *Amser y cyfrif*

Mater ar gyfer disgrisiwn y Swyddogion Canlyniadau yw cyfrif y papurau pleidleisio ar gyfer etholiadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac **fel arfer** mae'n digwydd cyn gynted â phosibl ar ôl diwedd y pleidleisio.

Mae'r pleidlais etholaeth a'r bleidlais ranbarthol yn yr etholiad i'w cyfrif ar lefel yr etholaeth. Bydd Swyddog Canlyniadau'r Etholaeth yn hysbysu'r Asiantau Cyfrif am union amser a lleoliad y cyfrif yn fuan ar ôl 26 Ebrill 2011.<sup>49</sup>

<sup>47</sup> [Y Comisiwn Etholiadol, Rhifwyr: Gair i Gall \[Wedi'i gyrchu 18 Mawrth 2011\]](#)

<sup>48</sup> Ibid

<sup>49</sup> [Y Comisiwn Etholiadol, Y Cyfrif, tudalen 3 \[Wedi'i gyrchu 18 Mawrth 2011\]](#)

### 5.5. *Ailgyfrif*

Mae paragraffau 56 a 57 o Atodlen 5 i Orchymyn 2007 yn pennu y caiff ymgeisydd etholaeth neu ranbarth neu ei asiant etholiadol, os yw'n bresennol pan fydd y cyfrif yn cael ei gwblhau, ofyn i Swyddog Canlyniadau'r etholaeth ailgyfrif y pleidleisiau. Er hynny, caiff Swyddog Canlyniadau'r Etholaeth wrthod cais o'r fath os yw o'r farn bod y cais yn afresymol.

### 5.6. *Cyhoeddi'r canlyniadau*

Ar ôl gorffen cyfrif y papurau pleidleisio etholaeth, bydd Swyddog Canlyniadau'r Etholaeth yn datgan bod yr ymgeisydd etholaeth sydd â'r mwyaf o bleidleisiau wedi'i ethol.

O ran y bleidlais i ethol Aelodau Cynulliad rhanbarthol, bydd Swyddog Canlyniadau'r Etholaeth, yn unol ag unrhyw gyfarwyddiadau a roddir gan y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol, yn llunio datganiad sy'n dangos nifer y pleidleisiau a roddwyd i bob plaid gofrestrdig ac i bob ymgeisydd annibynnol ac yn mynegi cynnwys y datganiad hwnnw i'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol. Wedyn dylai Swyddog Canlyniadau'r Etholaeth roi hysbysiad cyhoeddus o'r datganiad cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl iddo roi gwybod i'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol.

Dim ond pan fydd holl ganlyniadau dwy ran yr etholiad yn hysbys y gall y canlyniadau rhanbarthol gael eu cyfrif. Hynny yw, mae'r holl ganlyniadau etholaeth wedi'u datgan yn y rhanbarth ac mae'r holl bleidleisiau rhanbarthol wedi'u cyfrif ac wedi'u datgan ym mhob etholaeth.

Swyddogion Canlyniadau'r etholaethau unigol yng Nghymru fydd yn gyfrifol am benderfynu a ddylid cyfrif y pleidleisiau ar gyfer etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol gan ddechrau yn union ar ôl diwedd y pleidleisio o 10pm ymlaen nos Iau 5 Mai 2011, ynteu a ddylid dechrau cyfrif fore trannoeth sef dydd Gwener 6 Mai. Dywedodd papur a gynhyrchwyd gan y Prif Swyddog Cyfrif ym mis Tachwedd 2010:

If counting commences directly after the close of poll and continues without stopping until the process is concluded, it is anticipated that both constituency and regional results should be declared by 9am on Friday 6 Mai 2011. If counting commences in the morning of Friday 6 Mai, it is anticipated that both constituency and regional results should be declared by 4pm on Friday.

The Chief Counting Officer's current planning assumption is therefore that the counting of votes for the National Assembly for Wales elections will

be completed and results declared by 4pm on Friday 6 Mai 2011<sup>50</sup>.

Ar ôl i'r canlyniadau gael eu cyhoeddi, mae adran 3(3) o Ddeddf 2006 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad Cenedlaethol gyfarfod o fewn saith diwrnod ar ôl dyddiad yr etholiad.

---

<sup>50</sup> [Y Comisiwn Etholiadol, \*Referendum on changing the voting system for UK Parliamentary elections\*, Paper from the Chief Counting Officer on timing of the count for the proposed referendum, Tachwedd 2010](#)

**Atodiad 1: Dyddiadau Allweddol yr Etholiad<sup>51</sup>**

<b>Dyddiad</b>	<b>Digwyddiad</b>
Heb fod yn hwyrach na 25 Mawrth 2011	Cyhoeddi hysbysiadau'r etholiad (Etholaeth a Rhanbarth)
4 Ebrill 2011 (canol dydd)	Enwebiadau'n cau
6 Ebrill 2011 (canol dydd)	Y dyddiad olaf i'r ymgeiswyr dynnu'n ôl
6 Ebrill 2011 (canol dydd)	Hysbysu bod asiantau etholiad wedi'u penodi
8 Ebrill 2011 (canol dydd)	Cyhoeddi'r datganiad o'r personau a'r pleidiau a enwebwyd a chyhoeddi hysbysiad o'r bleidlais
14 Ebrill 2011 (5pm)	Y dyddiad olaf ar gyfer pleidleisiau post newydd / newid pleidlais bost neu bleidlais drwy ddirprwy
14 Ebrill 2011	Y dyddiad olaf ar gyfer cofrestru
21 Ebrill 2011 (5pm)	Y dyddiad olaf i wneud cais am bleidlais drwy ddirprwy newydd
26 Ebrill 2011	Penodi asiantau cyfrif ac asiantau pleidleisio
5 Mai 2011 (7am to 10pm)	Diwrnod y bleidlais
5 Mai 2011 (5pm)	Y dyddiad olaf i wneud cais newydd i bleidleisio drwy ddirprwy ar sail argyfwng meddygol
5 Mai 2011 (5pm)	Dosbarthu papurau pleidleisio newydd yn lle'r papurau pleidleisio drwy'r post a ddifethwyd neu a aeth ar goll yn dod i ben
5 Mai 2011 (5pm)	Newid y gofrestr i gywiro gwallau clerigol

---

<sup>51</sup> [Y Comisiwn Etholiadol, Candidates and agents information: Elections to the Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2011 \[Wedi'i gyrchu 18 Mawrth 2011\]](#)

**Atodiad 2: Swyddi sy'n anghymhwysu'r deiliaid rhag bod yn aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru**

**Cyrff y mae eu haelodau wedi'u hanghymhwysu**

Asiantaeth yr Amgylchedd neu Environment Agency;

Awdurdod Heddlu Trafnidiaeth Prydain;

Awdurdod Parc Cenedlaethol ar gyfer Parc Cenedlaethol yng Nghymru;

Awdurdod y Marchnadoedd Nwy a Thrydan;

Bwrdd Adfer Môn;

Bwrdd Ardollau Cymru neu Welsh Levy Board;

Bwrdd Canolwyr Meddygol a benodir gan Weinidogion Cymru;

Bwrdd Cynghorol Datblygu Diwydiannol Cymru;

Bwrdd Dyfrffyrdd Prydain;

Bwrdd y Gronfa Diogelu Pensiynau;

Bwrdd Ymddiriedolwyr Amgueddfa Genedlaethol Cymru a benodir gan Weinidogion Cymru;

Bwrdd Ymddiriedolwyr Llyfrgell Genedlaethol Cymru a benodir gan Weinidogion Cymru;

Bwrdd yr Iaith Gymraeg neu Welsh Language Board;

Bwrdd Ystadegau neu Statistics Board a sefydlir gan Ddeddf y Gwasanaeth Ystadegau a Chofrestru 2007;

Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru;

Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu;

Comisiwn Cynnal a Gorfodi Plant;

Comisiwn Etholiadol neu Electoral Commission;

Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru;

Corfforaeth datblygu trefol ar gyfer ardal datblygu trefol sydd yn gyfan gwbl yng Nghymru;

Corfforaeth Deledu Channel Four;

Corfforaeth Ymddiriedolaeth Cynilion Cyflogaeth Wladol;

Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur;

Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru neu General Teaching Council for Wales;  
Cyngor Cefn Gwlad Cymru;  
Cyngor Celfyddydau Cymru;  
Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru heblaw aelod sydd hefyd yn gyflogai i'r  
Cyngor;  
Cyngor Chwaraeon Cymru;  
Cyngor Gofal Cymru neu Care Council for Wales;  
Cyngor Rhagoriaeth Rheoleiddio Gofal Iechyd;  
Cyngor y Gwasanaeth Cynghori, Cymodi a Chyflafareddu;  
Hybu Cig Cymru neu Meat Promotions Wales;  
Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol;  
Panel Apelau Annibynnol Ffermwyr;  
Panel Dyfarnu Cymru neu Adjudication Panel for Wales;  
Panel, a sefydlir o dan Atodlen 10 i Ddeddf Rhent 1977, o bersonau i weithredu  
fel cadeiryddion ac aelodau eraill pwyllgorau asesu rhent ar gyfer ardal neu  
ardaloedd y mae pob rhan ohonynt yng Nghymru;  
Pwyllgor a sefydlir gan y Rheoleiddiwr Pensiynau o dan adran 9 o Ddeddf  
Pensiynau 2004;  
Pwyllgor Cynghori Cymreig yr Asiantaeth Safonau Bwyd;  
Sianel Pedwar Cymru;  
Swyddfa Rheoleiddio Gwell yn Lleol;  
Tribiwnlys a gyfansoddir o dan adran 27 o Ddeddf Addysg 2005, ac Atodlen 3  
iddi;  
Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru;  
Tribiwnlys Apelau Cystadleuaeth;  
Tribiwnlys haen-gyntaf;  
Tribiwnlys Prasio Cymru;  
Tribiwnlys Uwch;  
Tribiwnlys y cyfeirir ato ym mharagraff 10 o Atodlen 26 i Ddeddf Safonau a  
Fframwaith Ysgolion 1998;



Unrhyw aelod o'r Gronfa Loteri Fawr a benodir o dan baragraff 1 o Atodlen 4A i Ddeddf y Loteri Genedlaethol Etc. 1993 neu o bwyllgor a sefydlir o dan baragraff 7(1)(b) o'r Atodlen honno;

Y Bartneriaeth Gyngori ar Fwyd a Diod;

Y Comisiwn Ansawdd Gofal;

Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol;

Y Comisiwn Cystadleuaeth;

Y Comisiwn Gwasanaethau Post;

Y Gwasanaeth Cystadleuaeth;

Y Panel Annibynnol ar Gwynion Gwasanaethau Cymdeithasol;

Y Pwyllgor Cyngori ar Enseffalopathi Sbyngffurf;

Y Pwyllgor Cymrodeddu Canolog;

Y Rheoleiddiwr Pensiynau;

Y Swyddfa Gyfathrebiadau;

Y Swyddfa Masnachu Teg;

Y Tribiwnlys Tir Amaethyddol;

Ymddiriedolaeth y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig;

Yr Asiantaeth Diogelu Iechyd neu Health Protection Agency;

Yr Asiantaeth Safonau Bwyd neu Food Standards Agency;

Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch;

Yr Awdurdod Ffrwythloni ac Embryoleg Dynol;

Yr Awdurdod Meinwe Dynol.

### **Swyddi eraill sy'n anghymhwysu**

Archwilydd a benodir o dan adran 13(2) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004;

Archwilydd Achosion Annibynnol i'r Adran Gwaith a Phensiynau;

Archwilydd Cyffredinol Cymru ac aelodau ei staff;

Cadeirydd a chyfarwyddwr anweithredol Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol y mae rhai neu'r cyfan o'i hysbytai, ei sefydliadau neu ei chyfleusterau eraill wedi'u lleoli yng Nghymru;

Cadeirydd a Chyfarwyddwr Cyffredinol y Cyngor Prydeinig;

Cadeirydd a dirprwy gadeirydd Bwrdd Apelau'r Gwasanaeth Sifil;

Cadeirydd a Phrif Weithredwr Comisiwn y Deyrnas Unedig dros Gyflogaeth a Sgiliau neu Gyfarwyddwr neu Gomisiynydd i'r Comisiwn hwnnw a benodir gan Brif Weinidog Cymru;

Cadeirydd a Phrif Weithredwr y Bwrdd Strategaeth Technoleg;

Cadeirydd a Phrif Weithredwr y Student Loans Company Limited;

Cadeirydd ac aelodau Pwyllgor Cymreig y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd;

Cadeirydd ac aelodau'r Sefydliad Rheoli Morol;

Cadeirydd ac is-gadeirydd y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy;

Cadeirydd ac unrhyw aelod arall o Gyngor y Teithwyr sy'n cael tâl;

Cadeirydd ac unrhyw aelod arall, nad yw hefyd yn gyflogai, o Fwrdd Iechyd Lleol ardal yng Nghymru;

Cadeirydd ac unrhyw aelod, nad yw hefyd yn gyflogai, o Awdurdod Iechyd Arbennig sy'n cyflawni swyddogaethau yn rhannol neu'n gyfan gwbl mewn perthynas â Chymru;

Cadeirydd Panel y Cynllun Sicrwydd Cig Eidion;

Cadeirydd Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru;

Comisiynwyr Coedwigaeth ac aelod o'u staff;

Comisiynydd a Chomisiynydd cynorthwyol Comisiwn Ffiniau Cymru;

Comisiynydd a Chomisiynydd cynorthwyol Comisiwn Ffiniau Gogledd Iwerddon;

Comisiynydd a Chomisiynydd cynorthwyol Comisiwn Ffiniau Lloegr;

Comisiynydd a Chomisiynydd cynorthwyol Comisiwn Ffiniau yr Alban;

Comisiynydd Gwasanaeth Iechyd;

Comisiynydd Gweinyddiaeth Seneddol;

Comisiynydd i'r Gronfa Gymdeithasol;

Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus;

Comisiynydd Plant Cymru neu Children's Commissioner for Wales, y Dirprwy Gomisiynydd ac aelodau ei staff;

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru neu Commissioner for Older People in Wales, y Dirprwy Gomisiynydd ac aelodau ei staff;

Comisiynydd y Gwasanaeth Sifil;

Cyfarwyddwr i Finance Wales Public Limited Company neu i unrhyw is-gwmni sy'n perthyn yn llwyr i Finance Wales Public Limited Company;

Cyfarwyddwr i gwmni Swyddfa'r Post (o fewn ystyr Rhan 4 o Ddeddf Gwasanaethau Post 2000) sef cyfarwyddwr a enwebwyd neu a benodwyd gan un o Weinidogion y Goron neu gan berson yn gweithredu ar ran y Goron;

Cyfarwyddwr i'r Pensions Advisory Service Limited;

Gweinyddydd Annibynnol Cwynion Dŵr Daear a benodir o dan adran 21 o Ddeddf Morglawdd Bae Caerdydd 1993 a pharagraff 27 o Atodlen 7 iddi;

Llysgennad neu Gynrychiolydd Parhaol i sefydliad rhyngwladol sy'n cynrychioli Llywodraeth Ei Mawrhydi yn y Deyrnas Unedig;

Llywodraethwr neu Weinyddwr i un o diriogaethau tramor Prydain o fewn ystyr adran 50(1) o Ddeddf Cenedligrwydd Prydeinig 1981;

Llywydd Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru, neu aelod o banel o bersonau a benodir i weithredu fel cadeirydd neu aelod arall o'r Tribiwnlys hwnnw;

Ombwdsmon ar ran Bwrdd y Gronfa Diogelu Pensiynau a benodir o dan adran 209 o Ddeddf Pensiynau 2004 ac unrhyw ddirprwy i'r Ombwdsmon hwnnw a benodir o dan adran 210 o'r Ddeddf honno;

Ombwdsmon Pensiynau a benodir o dan adran 145 o Ddeddf Cynlluniau Pensiynau 1993 ac unrhyw ddirprwy i'r Ombwdsmon hwnnw a benodir o dan adran 145A o'r Ddeddf honno;

Person a benodir gan Weinidogion Cymru o dan adran 3(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989;

Person sy'n dal swydd sydd wedi'i chyfyngu'n wleidyddol, o fewn ystyr Rhan 1 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989, o dan y canlynol—

(a) awdurdod lleol yng Nghymru, o fewn ystyr y Rhan honno,

(b) Awdurdod Parc Cenedlaethol ar gyfer Parc Cenedlaethol yng Nghymru;

Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru neu Her Majesty's Chief Inspector of Education and Training in Wales;

Swyddog ardystio ac unrhyw swyddog ardystio cynorthwyol sydd â swyddogaethau o dan Ddeddf Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992;

Swyddog canlyniadau un o etholaethau neu ranbarthau etholiadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

Uchel Gomisiynydd yn cynrychioli Llywodraeth Ei Mawrhydi yn y Deyrnas Unedig;

Ymddiriedolwr i'r Gronfa Byw'n Annibynnol (2006);

Y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

